**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2016-2017

Hydref 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddCyllid@cynulliad.cymru
Twitter: @SeneddCyllid

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2016-2017

Hydref 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Y Pwyllgor Cyllid

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyllid yw gweithredu'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried unrhyw ddefnydd ar adnoddau gan Gomisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, ac yn benodol cyflwyno adroddiad yn ystod cylch blynyddol y gyllideb. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid hefyd yn cynnwys pwerau statudol penodol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 sy'n ymwneud â chyfrifoldebau newydd ar gyfer goruchwylio llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru.

---

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Jocelyn Davies (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Christine Chapman**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Nick Ramsay**
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Alun Ffred Jones**
Plaid Cymru
Arfon



**Ann Jones**
Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd

---

Oherwydd ei gyfrifoldebau fel un o Gomisiynwyr y Cynulliad, roedd Peter Black AC yn Absennol o holl gyfarfodydd y pwyllgor pan oedd Comisiwn y Cynulliad yn trafod Cyllideb Ddraft 2016-17.



**Peter Black**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru

# Cynnwys

**Argymhellion y Pwyllgor** .......... 5

**1. Cyflwyniad** .......... 6

**2. Cyllideb gyffredinol Comisiwn y Cynulliad** .......... 7

**3. Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** .......... 12

**4. Gwasanaethau dwyieithog a chofnod y trafodion** .......... 14

**5. Ymgysylltu â phobl ifanc** .......... 16

**6. Cynaliadwyedd** .......... 18

**Atodiad 1** .......... 20

**Atodiad 2 - Tystion** .......... 21

## Argymhellion y Pwyllgor

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Comisiwn y Cynulliad roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed mewn cysylltiad â pharatoi'r Cynulliad ar gyfer y pwerau cyllidol a deddfwriaethol newydd, gan gynnwys pa swyddi newydd sydd wedi cael eu creu i fwrw ymlaen â hyn fel y'u nodwyd yn nogfen y gyllideb ddrafft. (Tudalen 10)

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Comisiwn y Cynulliad egluro'r hyn sy'n digwydd i'r arian nad yw'n cael ei ddefnyddio gan Aelodau'r Cynulliad mewn cysylltiad â phenderfyniad y Bwrdd Taliadau. (Tudalen 11)

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Comisiwn gyhoeddi manylion yr amcangyfrif o'r costau cyn yr etholiad, gan nodi sut y disgwylir defnyddio'r £2.5 miliwn y gofynnir amdano. (Tudalen 11)

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r problemau sy'n gysylltiedig â gwefan y Cynulliad gael eu hadolygu fel mater o flaenoriaeth, a hoffai dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a gyflawnir yn y maes hwn cyn diwedd y Cynulliad. (Tudalen 13)

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r adolygiad o'r cynllun peilot geisio sicrhau na fydd unrhyw newidiadau a wneir yn effeithio ar ansawdd Cofnod y Trafodion. (Tudalen 15)

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Comisiwn presennol a Chomisiwn y Pumed Cynulliad barhau i roi blaenoriaeth i weithio tuag at dargedau cynaliadwyedd heriol yn arwain at 2021. (Tudalen 19)

# 1. Cyflwyniad

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 20.13, gosododd Comisiwn y Cynulliad ("y Comisiwn") gyllideb ddrafft 2016-17[1] ar gyfer y Comisiwn gerbron y Cynulliad ddydd Gwener 25 Medi, 2015.

2. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys costau ar gyfer blwyddyn gyntaf y Pumed Cynulliad. Mae'n cynnwys costau Etholiad y Cynulliad yn 2016 a goblygiadau Penderfyniad y Bwrdd Taliadau, o ran ariannu.[2]

**Cynnydd yng nghyllidebau'r Cynulliad yn y gorffennol**

3. Roedd Cyllideb Derfynol Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2012-13[3] yn cynnwys rhaglen fuddsoddi tair blynedd o godiadau mwy na lefel chwyddiant. Cytunodd y Pwyllgor Cyllid ("y Pwyllgor") i'r rhaglen er mwyn cynorthwyo i feithrin gallu yn sgil datganoli pwerau ychwanegol i'r Pedwerydd Cynulliad.

4. Mae'r Pwyllgor wedi amlygu'n flaenorol y disgwylir na ddylai unrhyw gynnydd yn 2015-16 a blynyddoedd dilynol fod yn fwy nag unrhyw newidiadau ym mloc Cymru. Oherwydd i'r Adolygiad o Wariant, a ddisgwylir ar 25 Tachwedd 2015, fod yn hwyr yn cael ei gyhoeddi, nid yw'r newidiadau i Floc Cymru yn hysbys. Felly, mae'r Comisiwn wedi gwneud tybiaethau ar sail yr unig ragamcanion sydd ar gael, o Ddatganiad yr Hydref 2014, a datchwyddwyr Cynnyrch Mewnwladol Crynswth.

5. Roedd Datganiad yr Hydref 2014, fel y'i rhoddwyd ym mis Rhagfyr 2014, yn awgrymu y gallai toriadau gyd-fynd â'r toriadau o 1.1% mewn termau real yn Senedd ddiwethaf y DU. Mae'r Comisiwn wedi paratoi ei gyllideb ar sail rhagdybiaeth y bydd y toriadau ychydig yn waeth mewn termau real, sef 1.5%.

---

[1] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2016-17, Medi 2015.
[2] Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Penderfyniad y Bwrdd Taliadau, Mai 2015
[3] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Comisiwn y Cynulliad, Cyllideb 2015-16 Adeiladu ar Fuddsoddi a Newid, Tachwedd 2014

# 2. Cyllideb gyffredinol Comisiwn y Cynulliad

### Newidiadau cyffredinol i gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2016-17

6. Mae'r Comisiwn yn gofyn am £52.0 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2016-17, o'i gymharu â £50.9 miliwn yn 2014-15. Mae hwn yn gynnydd o £1.1 miliwn mewn arian parod, neu 2.2%.

7. Mae cyllideb graidd arfaethedig Comisiwn y Cynulliad o £52.0 miliwn yn cynnwys:

- Cyllideb Gwasanaethau'r Comisiwn, sef £36.5 miliwn, sydd ychydig yn uwch na'r £36.4 miliwn y flwyddyn flaenorol, er ei bod 1.5% yn llai mewn termau real gan ddefnyddio'r datchwyddwyr Cynnyrch Mewnwladol Crynswth diweddaraf;
- Cyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, sef £15.5 miliwn, £1 miliwn yn fwy nag yng nghyllideb 2015-16.

8. Yn ogystal â hyn, mae'r ffigur yn y gyllideb ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol wedi cynyddu £300,000. Nodir mai swm wrth gefn o £300,000 yw hwn ar gyfer unrhyw addasiadau cyfrifyddu ychwanegol sy'n deillio o newidiadau i'r cynllun pensiwn. Ni fyddai'r swm wrth gefn hwn yn cael ei dynnu i lawr oni bai bod angen.

9. Mae Tabl 1 yn dangos y dyraniadau lefel uchel yng nghyllideb ddrafft y Comisiwn.[4]

[4] Cyllideb ddrafft y Cynulliad ar gyfer 2016-17, sylwer bod y newidiadau wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio tablau'r Cynulliad wedi'u talgrynnu i'r £0.1 miliwn agosaf, ac felly mae'n bosibl y ceir camgymeriadau talgrynnu.

| | Cyllideb 2015-16 | Cyllideb Arfaethedig 2016-2017 | Newidiadau |
|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m |
| Staff y Comisiwn | 18.7 | 20.3 | 1.6 |
| Costau Sefydlog (gan gynnwys Dibrisiant) | 11.6 | 9.9 | -1.7 |
| Costau Newidiol | 5.4 | 5.4 | 0.0 |
| Cronfeydd Datblygu | 0.7 | 0.9 | 0.2 |
| **Cyfanswm ar gyfer Gwasanaethau'r Comisiwn** | **36.4** | **36.5** | **0.1** |
| | | | |
| Cyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd | 14.5 | 15.5 | 1.1 |
| Taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad | | | |
| **Cyfanswm y Gyllideb Weithredol** | **50.9** | **52.0** | **1.1** |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | 1.2 | 1.5 | 0.3 |
| Gwariant yn ymwneud â'r etholiad. | 0.5 | 2.5 | 2.0 |

*Tabl 1: Cyllideb Ddrafft 2016-17*

**Blaenoriaethau ar gyfer y Pumed Cynulliad**

10. Mae cyllideb ddrafft 2016-17 yn datgan mai prif nod y gyllideb yw darparu sefydlogrwydd a sicrhau bod gwasanaethau rhagorol yn parhau i gael eu darparu i Aelodau tan i'r Comisiwn newydd gael ei sefydlu a tan i'w amcanion a'i flaenoriaethau fod yn eglur.

11. Mae'r gyllideb ddrafft fel y mae wedi'i bwriadu i alluogi'r Comisiwn newydd i gyflawni ei gyfrifoldebau o ddydd i ddydd

> "i'r un safonau uchel ag a gafwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, gyda phwyslais ar wella'n barhaus, arloesi a gwerth am arian."[5]

12. Mae'r Pwyllgor wedi edrych yn flaenorol ar y modd y mae'r Comisiwn yn cynllunio ar gyfer y Pumed Cynulliad, gan gynnwys cynllunio ar gyfer ymdrin â phwerau ariannol newydd. Mae'r Pwyllgor wedi dechrau craffu ar ddeddfwriaeth gyntaf Llywodraeth Cymru ym maes trethi. Mae dogfen y gyllideb ddrafft hefyd yn amlygu bod nifer y darnau o ddeddfwriaeth yn amlwg yn cynyddu, a'u bod yn dod yn fwy cymhleth, ac mae hynny'n debygol o barhau i'r Pumed Cynulliad.

---

[5] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2016-17, Medi 2015.

13. Mae cyllideb ddrafft y Comisiwn yn nodi 7 swydd ychwanegol yn y Cyfarwyddiaethau Busnes y Cynulliad a Gwasanaethau Cyfreithiol. Bydd y rhain yn cynyddu adnoddau ac arbenigedd ym maes craffu ariannol yng ngoleuni'r ffaith bod gan y Cynulliad fwy o bwerau ariannol a deddfwriaethol, yn ymestyn y gwasanaeth dwyieithog yn y Swyddfa Gyflwyno, ac yn darparu ar gyfer cyflwyno swyddi dan hyfforddiant o fewn y Gwasanaethau Cyfreithiol.

## Costau'r etholiad

14. Bydd etholiad y Cynulliad yn cael ei gynnal ym mis Mai 2016. O ganlyniad, mae'r gyllideb ddrafft yn cynnwys gwariant untro yn gysylltiedig â'r etholiad, sef £2.5 miliwn, ar ben y gyllideb graidd o £52.0 miliwn.

15. Mae'r gyllideb ddrafft yn nodi bod y costau sy'n gysylltiedig â'r etholiad yn cynnwys:

> "... y costau sy'n gysylltiedig â therfynu swyddi'r Aelodau hynny a fydd yn dod i ben, costau darparu offer a chymorth TGCh i Aelodau sy'n dechrau, unrhyw ofynion o ran adeiladau y mae angen talu amdanynt, a'r costau sy'n gysylltiedig â rheoli'r prosesau hyn."[6]

### *Tystiolaeth Comisiwn y Cynulliad*

16. Holwyd y Comisiwn ynghylch sut y bydd yn ymateb i anghenion y Pumed Cynulliad, yn enwedig o ystyried yr ansicrwydd ynghylch sut y bydd y Cynulliad newydd yn dymuno'i strwythuro ei hun a'i Bwyllgorau. Dywedodd y Comisiwn y gellir rhagweld rhai o heriau'r Pumed Cynulliad nawr, fel craffu ariannol, mwy o lwyth gwaith deddfwriaethol a gofynion cefnogi'r pwyllgorau, a bu cynnydd yn nifer y staff yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, roedd hyblygrwydd yn null gweithio'r Comisiwn er mwyn ymateb i ofynion y dyfodol.

17. O safbwynt cynllunio ar gyfer y newid cyfansoddiadol sydd ar y gweill a'r cynnydd mewn cyfrifoldeb cyllidol, dywedodd y Comisiwn fod staff arbenigol ychwanegol wedi cael eu recriwtio a all ymdrin â

---

[6] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2016-17, Medi 2015.

gwaith craffu ariannol, a bod gwaith yn mynd rhagddo i gynnal a chryfhau'r tîm cyfreithiol.[7]

18. Gofynnwyd i'r Comisiwn hefyd pa mor hyderus oeddynt fod yr amcangyfrif o £15.5 miliwn ar gyfer 2016-17 yn gywir o safbwynt y Bwrdd Taliadau. Dywedodd y Comisiwn fod yr amcangyfrif yn cyfateb i gost lawn penderfyniad y Bwrdd Taliadau pe byddai pob AC yn hawlio'r holl ddyraniadau a oedd ar gael iddo.[8]

19. Holwyd y Comisiwn hefyd ynglŷn â'r amcangyfrif o £2.5 miliwn ar gyfer costau'r etholiad. Dywedodd y Comisiwn fod yr amcangyfrif hwn yn seiliedig ar brofiad blaenorol ac y gwneir paratoadau gan ystyried y bydd nifer benodol o Aelodau yn gadael a'r un nifer o Aelodau newydd yn cymryd eu lle. Eglurodd felly fod yr amcangyfrif yn cynnwys costau diswyddo/adsefydlu ar gyfer yr Aelodau nad ydynt yn dychwelyd a'r costau sefydlu ar gyfer yr Aelodau newydd. Eglurodd y Comisiwn y dychwelir unrhyw arian nad yw'n cael ei ddefnyddio i floc Cymru drwy gyllideb atodol.[9]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

20. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r camau y mae'r Comisiwn yn eu cymryd ar hyn o bryd i baratoi ar gyfer y pumed Cynulliad ac yn cefnogi'r dull gweithredu. Mae'r Pwyllgor yn falch o nodi bod y Comisiwn wedi cydnabod y bydd swyddogaeth bwysig i waith craffu ariannol yn y pumed Cynulliad.

**Argymhelliad 1: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Comisiwn y Cynulliad roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed mewn cysylltiad â pharatoi'r Cynulliad ar gyfer y pwerau cyllidol a deddfwriaethol newydd, gan gynnwys pa swyddi newydd sydd wedi cael eu creu i fwrw ymlaen â hyn fel y'u nodwyd yn nogfen y gyllideb ddrafft.**

21. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad yw'r costau sy'n gysylltiedig â phenderfyniad y Bwrdd Taliadau o dan reolaeth y Comisiwn felly mae'n derbyn bod y Comisiwn yn cynllunio ar sail y sefyllfa waethaf o safbwynt y costau hyn. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi datgan nad yw'n disgwyl i bob Aelod ddefnyddio'i ddyraniadau i gyd, a nodwyd mai amcangyfrif y Comisiwn oedd fod tanwariant 2015-16 yn

---

[7] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 1 Hydref 2015, paragraff 694
[8] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 1 Hydref 2015, paragraff 565
[9] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 1 Hydref 2015, paragraff 588

debygol o fod tua £400,000 i £500,000. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad ynghylch yr hyn sy'n digwydd i unrhyw ddyraniad nad yw'n cael ei ddefnyddio a ph'un a fydd unrhyw gyllid sy'n weddill yn cael ei ddychwelyd i floc Cymru (yn yr un modd ag y bydd unrhyw gyllid dros ben a ddyranwyd ar gyfer costau'r etholiad yn cael ei ddychwelyd).

**Argymhelliad 2: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Comisiwn y Cynulliad egluro'r hyn sy'n digwydd i'r arian nad yw'n cael ei ddefnyddio gan Aelodau'r Cynulliad mewn cysylltiad â phenderfyniad y Bwrdd Taliadau.**

22. Mae'r Pwyllgor yn derbyn ei bod yn anodd rhagweld y costau mewn cysylltiad â'r etholiad, ac y byddant yn dibynnu'n rhannol ar nifer yr Aelodau nad ydynt yn dychwelyd a nifer yr Aelodau newydd sy'n cael eu hethol. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod yr amcangyfrifon a ddefnyddiwyd gan y Comisiwn yn rhesymol, ac yn croesawu'r ffaith y byddai unrhyw gyllid dros ben yn ymwneud â'r etholiad yn cael ei ddychwelyd i floc Cymru trwy gyllideb atodol.

23. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw'r gyllideb ddrafft yn cynnwys dadansoddiad manwl o gostau'r etholiad fel yr argymhellwyd yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2015-16:

> "Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Comisiwn yn cyhoeddi manylion yr amcangyfrif o'r costau cyn-etholiad ar gyfer 2015-16 er mwyn gwella tryloywder ac argaeledd gwybodaeth."[10]

**Argymhelliad 3: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Comisiwn gyhoeddi manylion yr amcangyfrif o'r costau cyn yr etholiad, gan nodi sut y disgwylir defnyddio'r £2.5 miliwn y gofynnir amdano.**

[10] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2015-16, Hydref 2014

## 3. Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

24. Cwblhawyd y rhaglen bontio ar gyfer TGCh ym mis Gorffennaf 2014. Mae'r Comisiwn wedi datblygu cynllun buddsoddi treigl dros dair blynedd ar gyfer TGCh, a chafodd ei gynllunio i wneud iawn am y diffygion a etifeddwyd gan y gwasanaeth allanol blaenorol. Rhaid i'r Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau gymeradwyo achos busnes ar gyfer yr holl waith a'r holl wariant arfaethedig. Nod hyn yw sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n ddoeth ar flaenoriaethau corfforaethol.

25. Yn 2016-17 rhagwelir y bydd gwasanaeth TGCh 'craidd' y Comisiwn yn costio £3.7 miliwn (gan gynnwys costau staff). Mae hyn £0.7 miliwn yn is na'r costau cyn y trawsnewid. Yn 2016-17 mae'r arian hwn sy'n cael ei arbed "yn cael ei ddefnyddio i wella'r gwasanaethau TGCh ymhellach".[11]

26. Un o'r buddsoddiadau allweddol a amlygwyd yn y gyllideb ddrafft yw prosiect adnewyddu'r Siambr. Disgwylir i'r newidiadau arfaethedig gael eu gweithredu yn 2016-17 yn dilyn y treialon a gynhaliwyd yn ystod haf 2015. Bydd yr union gostau yn dibynnu ar yr opsiynau terfynol, a nodwyd amcangyfrif cychwynnol o £0.65 miliwn yn y gyllideb.

### *Tystiolaeth Comisiwn y Cynulliad*

27. Gofynnwyd i'r Comisiwn a oedd yn bwriadu gwario arian ar wella'r fewnrwyd a'r wefan. Cadarnhaodd y Comisiwn fod angen ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio'r rhyngrwyd, er mwyn sicrhau y ceir system sy'n effeithlon, yn hygyrch i ddinasyddion ac yn rhwydd ei defnyddio.[12]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

28. Mae'r Pwyllgor yn sylweddoli bod problemau y mae angen eu datrys o ran gwefan y Cynulliad, ac yn falch bod y Comisiwn yn cydnabod y problemau hyn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod y ddarpariaeth TGCh wedi gwella ers i'r gwasanaeth gael ei ddarparu'n fewnol, ac yn llongyfarch y Comisiwn ar lwyddiant y newid hwn.

---

[11] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2016-17, Medi 2015.
[12] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 1 Hydref 2015, paragraff 620

**Argymhelliad 4: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r problemau sy'n gysylltiedig â gwefan y Cynulliad gael eu hadolygu fel mater o flaenoriaeth, a hoffai dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn a gyflawnir yn y maes hwn cyn diwedd y Cynulliad.**

# 4. Gwasanaethau dwyieithog a chofnod y trafodion

29. Cynhaliwyd adolygiad yn 2014 o'r modd y mae Cofnod y Trafodion yn cael ei baratoi. Mae dogfen y gyllideb ddrafft yn nodi bod yr adolygiad wedi canfod:

> "...bod rhannau o'r broses yn hir-sefydledig, ond o bosibl nad oeddynt yn ofynnol mwyach. Mae hyn wedi darparu opsiynau ar gyfer symleiddio sut y mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud a fydd yn cael eu datblygu yn barod ar gyfer y Pumed Cynulliad."[13]

30. Paratodd y Comisiwn adroddiad cydymffurfio ynglŷn â Chynllun Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad ym mis Gorffennaf 2015. Rhoddwyd arwydd clir o'r meysydd y mae angen eu gwella neu eu cryfhau gan y prif themâu a oedd yn codi o gwynion ac adborth.

31. Darperir gwasanaethau cyfieithu yn fewnol, ac amlygwyd adnoddau ychwanegol yn y gyllideb ddrafft i ymestyn y gwasanaeth dwyieithog yn y Swyddfa Gyflwyno, gyda chefnogaeth contract cyfieithu allanol. Bydd y contract yn cael ei aildendro mewn pryd ar gyfer y Pumed Cynulliad.

32. Mae Atodiad 2 o gyllideb y Comisiwn yn rhoi dadansoddiad o'r costau cyfieithu allanol ar gyfer y Pedwerydd Cynulliad. Mae hwn yn dangos bod costau wedi cynyddu o £116,000 yn 2011-12 i £276,000 yn 2013-14. Ar ôl gostwng i £241,000 yn 2014-15, mae'r costau yng nghyllideb 2015-16 wedi codi i £263,000. Ni ddarperir amcangyfrif ar gyfer 2016-17.

33. Mae dogfen y gyllideb yn datgan bod y Comisiwn yn bwriadu sicrhau adborth annibynnol a gwerthuso ansawdd y gwasanaethau dwyieithog y mae'r Cynulliad yn eu cynnig i bobl Cymru.

---

[13] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2016-17, Medi 2015

### *Tystiolaeth Comisiwn y Cynulliad*

34. Gofynnwyd i'r Comisiwn pa agweddau ar Gofnod y Trafodion sydd wedi cael eu symleiddio. Dywedodd y Comisiwn fod amser wedi'i arbed trwy wneud newidiadau i'r drefn o brawfddarllen papurau pwyllgor, gan arbed 16 awr yr wythnos, a bod treial yn cael ei gynnal ar hyn o bryd o ran logio'r Cyfarfodydd Llawn.[14]

35. Pan holwyd ynglŷn â'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwneud llai o logio yn y Siambr, dywedodd y Comisiwn y byddai'r cynllun peilot presennol yn asesu'r risgiau hyn.[15]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

36. Mae'r Pwyllgor yn falch o glywed am y gwaith sydd ar y gweill i wella gwasanaethau dwyieithog, yn enwedig os bydd y newidiadau hyn yn arwain at arbed arian, ond ni fyddai Aelodau am arbed arian ar draul ansawdd.

**Argymhelliad 5: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r adolygiad o'r cynllun peilot geisio sicrhau na fydd unrhyw newidiadau a wneir yn effeithio ar ansawdd Cofnod y Trafodion.**

---

[14] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 1 Hydref 2015, paragraff 634
[15] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 1 Hydref 2015, paragraff 642

## 5. Ymgysylltu â phobl ifanc

37. Mae dogfen cyllideb ddrafft y Comisiwn yn nodi'r camau sylweddol a gymerwyd yn ystod y Pedwerydd Cynulliad i ymgysylltu â phobl ifanc. Mae strategaeth newydd i ymgysylltu â phobl ifanc hefyd yn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar waith y Cynulliad.

38. Yn 2016-17 bydd y Comisiwn yn archwilio'r potensial i raglenni Erasmus+ ariannu gweithgareddau ieuenctid a gwaith i ddatblygu cynnwys yn y dyfodol.

39. Argymhellodd y Pwyllgor, yn ei adroddiad ar gyllideb ddiwethaf y Comisiwn, bod y Comisiwn yn ystyried opsiynau ar gyfer defnyddio'r cymhorthdal teithio ar gyfer y trên yn ogystal â'r bws er mwyn sicrhau y cyflawnir y gwerth gorau am arian.

40. Fel rhan o'r broses o ystyried y gyllideb ddrafft, ystyriodd y Pwyllgor fap yn dangos ymweliadau â'r Siambr ac ymweliadau Allgymorth Addysg rhwng mis Medi 2014 a mis Gorffennaf 2015. Mae'r map hwn i'w weld yn Atodiad 1.

### *Tystiolaeth Comisiwn y Cynulliad*

41. Dywedodd y Comisiwn wrth y Pwyllgor fod gwaith wedi ei wneud i sicrhau bod ymgysylltu ym mhrif ffrwd pob agwedd ar waith y Cynulliad. Parhaodd y Comisiwn i ymhelaethu ar y potensial i Erasmus + ariannu gweithgareddau ieuenctid yn y dyfodol trwy gydweithrediad rhyngwladol, ond eglurodd fod y gwaith yn dal i fod ar gam cymharol gynnar.[16]

42. Eglurodd y Comisiwn hefyd fod newidiadau wedi'u gwneud, yn dilyn yr argymhelliad yn adroddiad y Pwyllgor ar gyllideb ddrafft 2015-16, i alluogi ysgolion i gael cymorthdaliadau ar gyfer teithio ar y trên, yn ogystal â theithio ar y bws, er nad oes unrhyw ysgolion wedi manteisio ar hyn eto.[17]

43. O ran y map sy'n dangos gwaith allgymorth y Cynulliad, dywedodd y Comisiwn fod penderfyniadau wedi eu gwneud i'r

[16] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 1 Hydref 2015, paragraff 709
[17] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 1 Hydref 2015, paragraff 714-716

Cynulliad fod â phresenoldeb mewn rhai sioeau penodol yn unig, ar ôl adolygu'r hyn a gymerwyd o'i bresenoldeb yn y digwyddiadau hyn.[18]

### *Safbwynt y Pwyllgor*

44. Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed cynlluniau i wneud cais am gyllid Erasmus + ar gyfer prosiectau ymgysylltu â phobl ifanc, a byddem yn annog y Comisiwn i fwrw ymlaen â'i gynlluniau yn y maes hwn.

45. Gwnaed argraff fawr ar y Pwyllgor hefyd gan y manylion ar y map a oedd yn dangos gweithgarwch allgymorth y Cynulliad yng Nghymru, ac mae'n canmol y Comisiwn a staff y Cynulliad sydd wedi bod yn sbarduno'r dull o ymgysylltu â phobl ifanc.

---

[18] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 1 Hydref 2015, paragraff 728

# 6. Cynaliadwyedd

46. Nododd y Comisiwn yn ei gyllideb y llynedd iddo fod yn gweithio ers 2009 tuag at ddod yn sefydliad carbon isel erbyn 2015. Y llynedd, cytunodd y Comisiwn ar Drywydd Lleihau Carbon newydd, gyda chyfraniad gan yr Ymddiriedolaeth Garbon, er mwyn parhau â'r rhaglen o allyriadau ynni ar ôl i'r Strategaeth bresennol ddod i ben yn 2015.

47. Targedau cynaliadwyedd blaenorol y Comisiwn oedd lleihau'r ôl troed ynni cyfunol (Ystâd Bae Caerdydd) 40% rhwng 2008-09 a 2015 (targed o ostyngiad blynyddol o 8%). Mae'r gyllideb ddrafft yn datgan bod allyriadau 35% yn is yn 2014-15 nag yn 2008-09.

48. Mae'r dangosyddion perfformiad allweddol diweddaraf yn cynnwys targed i leihau allyriadau ynni 30% rhwng 2012-13 a 2021.

49. Y targed cynaliadwyedd arall a ddangosir yn y ddogfen dangosyddion perfformiad allweddol yw peidio ag anfon dim gwastraff i safleoedd tirlenwi erbyn 31 Mawrth 2015. Mae swm y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi wedi gostwng i 4.7 tunnell, o'i gymharu â 6.4 tunnell y flwyddyn flaenorol. Mae tua 95% o wastraff yn cael ei ailgylchu.

### *Tystiolaeth Comisiwn y Cynulliad*

50. Eglurodd y Comisiwn fod y targed a osodwyd i leihau allyriadau 40% yn uchelgeisiol, ac er mai 35% a gyflawnwyd, bod hyn yn dal i fod yn llwyddiant sylweddol.[19] Gosodwyd targed heriol i leihau allyriadau 30% eto erbyn diwedd y Pumed Cynulliad, o'u cymharu ag allyriadau 2012-13. Eglurodd y Comisiwn fod ei adeiladau wedi eu graddio'r adeilad cyhoeddus mwyaf cynaliadwy yn y DU.


### *Safbwynt y Pwyllgor*

51. Er na lwyddwyd i gyflawni'r targed i leihau allyriadau 40%, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod hwn yn darged uchelgeisiol. Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r Comisiwn am leihau allyriadau 35%.

[19] Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion Drafft, 1 Hydref 2015, paragraff 739

**Argymhelliad 6: Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai'r Comisiwn presennol a Chomisiwn y Pumed Cynulliad barhau i roi blaenoriaeth i weithio tuag at dargedau cynaliadwyedd heriol yn arwain at 2021.**

# Atodiad 1


Pob ymweliad
Medi 2014 – Gorffennaf 2015
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales
Allwedd
Siambr Hywel
Allgymorth
Ymgysylltu â phobl ifanc
Siambr Hywel ac Allgymorth
Siambr Hywel ac Ymgysylltu â phobl ifanc
Allgymorth ac Ymgysylltu â phobl ifanc
Siambr Hywel, Allgymorth ac Ymgysylltu â phobl ifanc
Rhanbarthau'r Cynulliad Cenedlaethol
Etholaethau'r Cynulliad Cenedlaethol
Sylwadau
Mae'r map yn cynnwys digwyddiadau, cyfarfodydd ac ymweliadau.
© Mae'n cynnwys data Arolwg Ordnans, Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2015. Arolwg Ordnans 100047295.
Graddfa
0 2.5 5 10 15 20
Milltiroedd

## Atodiad 2 - Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiad a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiwn dystiolaeth lafar yn llawn yn www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s44565/1%20Hydref%202015.pdf

**1 Hydref 2015**

| *Enw* | *Sefydliad* |
|---|---|
| David Melding AC | Comisiynydd y Cynulliad Dros Dro |
| Claire Clancy | Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad |
| Nicola Callow | Cyfarwyddwr Cyllid |